**Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn**

**1/3/2022**

**Presennol: Y Cynghorwyr** Dewi Wyn Jones, (Cadeirydd), Beryl Hughes Griffiths, (Is-gadeirydd), Huw Antur, Branwen Haf, Alwyn E Jones, Arwel Lloyd Jones, Rhodri Jones ,Alwyn Roberts, Huw P Roberts

Hefyd yn bresennol: Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

**Cyhoedd:** neb yn bresennol.

**2341 Croesawyd pawb gan y Cadeirydd.**

**2342 Derbyniwyd Ymddiheuriadau** Euros Roberts, Heledd Jones

**2343 Derbyniwyd datganiadau o fuddiant** wrth drafod 2349iii - sef Cyfraniadau Cymunedol Clwb pêl droed – oddi wrth

**2344 Adroddiad y Clerc**

- **i.** Ni dderbyniwyd ateb uniongyrchol i'r Cyngor i ohebiaeth parthed cynnig i roi tai pobl leol ar y farchnad, ond derbyniodd un o breswylwyr yr ardal ateb; nid oedd yn cynnwys ymddiheuriad nac addewid i beidio gwneud hyn eto.
- **ii.** Rhoddwyd gwybodaeth y bydd ffordd Llangywer ar gau ar 25/3/2022 (tocio coed wrth Tŷ Newydd)
- **iii.** Cyhoeddwyd cyfarfod Teulu Gwalia yn yr Eagles amser cinio 2/3/2022 (dan nawdd grant Cyngor Gwynedd a chyfraniad Cyngor Cymuned Llanuwchllyn)
- **iv.** Rhoddwyd rhybudd am Etholiadau mis Mai, er nad yw'r ffurflenni wedi cyrraedd eto.
- **v.** Cyhoeddwyd fod Polisi a Rheolau diwygiedig y fynwent ar y wefan; diolchwyd i Alwyn M Roberts am ei waith gyda'r uwchraddiad.

**2345 Cyngor Gwynedd:** Yn ei Adroddiad, dywedodd y Cynghorydd Alan Jones Evans fod Rhan 2 o brosiect Ardal Ni yn cychwyn yn awr ,sef holiadur i drigolion i fwydo mewn i'r Cynllun Adfywio. Mae hyn yn gyfle i gymunedau adnabod y blaenoriaethau sy'n bwysig iddynt yn y dyfodol. Mae'n bwysig bod trigolion yn rhoi eu barn gan y bydd hyn yn llywio datblygiadau am y pymtheg mlynedd nesaf. Anogodd bawb i ymateb ac i annog eraill yn y gymuned i ymateb.

Mae'r ffos tu ôl i Blas Du rhwng cymunedau Llangywer a Llanuwchllyn angen ei hagor a bydd yn cysylltu gyda'r Swyddog perthnasol.

Roedd yn ofid ganddo fod trafferthion gyda chasglu sbwriel yn creu pryder unwaith eto wrth Weirglodd Wen; bydd yn cyfarfod gyda Swyddog ar y safle er mwyn trafod uwchraddio'r safle. Bydd hefyd yn tynnu ei sylw at y sbwriel ar hyd ochrau'r ffordd.

Dywedodd y bydd peirianwyr dynodedig i ardaloedd gyda'u cyllidebau eu hunain i gwrdd â'r anghenion "patshio" tarmac yn lleol.

Mae'n disgwyl dyddiad i gyfarfod safle wrth y gofgolofn er mwyn cael golau ar y cerfluniau.

Soniwyd fod angen clirio ochr isa'r biniau ac yng ngheg y cwlfer wrth safle biniau ffordd Weirglodd Wen, ac addawodd y Cynghorydd i dynnu sylw at hyn.

**2346** **Adroddiadau:** Is-bwyllgorau a gweithgorau

Sylfeini: Adrodd y Cynghorydd Alan Jones Evans fod y drafodaeth yn symud ymlaen gyda Chyngor Gwynedd yn dilyn y cyfarfod gyda Craig ab Iago, a disgwylir cyfarfod yn fuan eto. Mae'r ddeialog o gydweithio yn fwy positif gyda Chynefin sydd yn sôn am drefnu cyfarfod lleol a darganfod anghenion lleol. Nododd Huw Antur fod cydweithio gydag Elusen Maurice Vaughan ar y ddarpariaeth yn lleol.

Is-bwyllgor dathlu canmlwyddiant yr Urdd: Adroddodd Branwen Haf eu bod yn edrych ar ddigwyddiad lleol a theuluol ar y maes pêl droed rhyw brynhawn dydd Sul tua diwedd Mehefin; mae angen trafod gyda'r Gweinidog yn gyntaf. Nid oes ymateb wedi dod gan yr Adran Briffyrdd am arwydd ar gyrion y pentref.

Cynllun Ardal: trefnir cyfarfod yn ystod y mis.

**2347** **Adroddiadau Cynghorwyr:**

i. Y Gaiman: Dywedodd Beryl Hughes Griffiths iddi dderbyn Cytundeb wedi ei gadarnhau gan Buenos Aires. Edrychir ymlaen at ddyddiad i gyd-arwyddo; awgrymwyd Gŵyl y Glaniad diwedd Gorffennaf.

ii Asedau: Awgrymwyd fod pob Cynghorydd yn paratoi adroddiad byr ysgrifenedig erbyn y cyfarfod nesaf ar yr ased y mae'n gyfrifol drosto, gan gynnwys awgrymiadau os bydd angen gwario yn y dyfodol.

Giât Llwybr Cei: adroddodd Alwyn M Jones ei fod wedi gofyn am amcan bris i'r gwaith o symud y giât.

Wal wrth fynedfa nyrs y fynwent: Bydd is-bwyllgor y fynwent yn edrych ar y sefyllfa pan fyddant yn cyfarfod. Holwyd a oes posib cael bwlch yn yr clawdd wrth y giât.

Bydd Bethan Edwards yn trefnu noson i dacluso'r fynwent.

**2348** **Adroddiad Partneriaeth Penllyn:** Adroddodd Huw Antur ac Alwyn E Jones fod y gwaith yn prysuro yn y Ganolfan efo sefydlu'r Hwb Llesiant i Benllyn (cydweithio rhwng Betsi Cadwaladr a Chyngor Gwynedd ). Llwyddwyd i gael grant Cronfa Cymunedau Mentrus i ddatblygu blaenoriaethau'r Cwmni a'r gymuned - bydd y grant hwn yn galluogi cyflogi staff am fwy o amser yn y Ganolfan.

**2349** **Ariannol**

i. Diolchwyd am Adroddiad y SAC a chymeradwywyd taliadau fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Nwyddau Nadolig | £255.98 |
| CCF- Nwyddau toiledau | £59.73 |
| Trwydded Zoom (Bala ad-dalu hanner) | £109.18 |
| CThEM | £116.00 |
| Cytundebau | £325.04 |

ii. Cymeradwywyd diwygiad o'r Rheoliadau Ariannol a wnaethpwyd o ganlyniad i fancio ar lein; awgrymwyd cael Cerdyn Debyd i'r Cyngor i arbed unigolion ddefnyddio eu cardiau personol ar gyfer taliadau ar ran y Cyngor. Bydd Bethan Edwards yn holi am hyn yn y banc.
iii. RHYBUDD: bydd yr is-bwyllgor cyllid yn cyfarfod am 7.00 o flaen y Cyngor nesaf i drafod hyn ac i fonitro'r cyfrifon.
iv. Cytunwyd i wneud y Cyfraniadau Cymunedol fel a ganlyn, gan fynegi wrth ymgeiswyr y bwriad i fynd yn ôl i'r drefn arferol ar gyfer ceisiadau Chwefror 2021.

| | |
|---|---|
| Clwb Pel Droed | £200.00 |
| Plase/Cantref | £100.00 |
| CFfI Meirion | £250.00 |
| Bara Caws | £100.00 |
| Llungwyn | £100.00 |
| Adran Bentref | £200.00 |
| Cylch Penllyn | £150.00 |
| Sioe | £100.00 |
| Glannau Tegid | £200.00 |
| Meithrin | £100.00 |
| Llen y Llannau | £100.00 |
| | £1,600.00 |

**2350 Parc Cenedlaethol Eryri** – dim ceisiadau cynllunio.

**2351 Un Llais Cymru:** Adroddiad o'r Pwyllgor Sirol -cylchredwyd. Bydd y cyfarfod nesaf ar Zoom ar 9/3/22 a'r testun fydd Cynllunio. Yn niffyg cynrychiolydd, cytunodd y Clerc i geisio fod yn bresennol.

**2352 Ystyried Gohebiaeth**

Comisiwn Ffiniau: cyflwynwyd gwybodaeth am gyfarfodydd cyhoeddus.

Coedwig Rhydymain: mynegwyd y farn bod ail blannu yn dderbyniol, ond roedd gwrthwynebiad i blannu pinwydd o'r newydd.

Ras ym mis Awst: Peter Rutherford Parc Cenedlaethol Eryri wedi adrodd y bu cyfarfod i'w drafod; doedd o ddim yn disgwyl y byddai'n amharu; os bydd yn dilyn llwybr Mary Jones, fe fydd angen adfer darnau o'r llwybr.

Llythyr Busnes/Poster Triathlon - Rhannwyd trwy e-bost. Nodwyd fod Parc Cenedlaethol Eryri wedi cymeradwyo'r digwyddiad er bod un Cyngor Cymuned wedi gwrthod, yn groes i'r hyn a addawyd yn y gorffennol.

**2353 Ystyried Materion lleol y Cynghorwyr –** dim.

**Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf:** 5/4/2022 dros Zoom ac – os yn bosib – yn y Neuadd.